Centre of expertise on child sexual abuse

# Ymateb i gam-drin plant yn rhywiol: Dysgu oddi wrth wasanaethau plant yng Nghymru

## Briff ac argymhellion

Medi 2020

## Gair am y Ganolfan arbenigedd ar gamdrin plant yn rhywiol

Mae'r Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CPRh) yn dymuno gweld plant yn cael byw'n rhydd rhag bygythiad a niwed cam-drin rhywiol. Ein nod yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy gamau atal gwell ac ymateb gwell.

Rydym ni'n dîm amlddisgyblaethol, sy'n cael ei ariannu gan y Swyddfa Gartref a'i gynnal gan Barnardo's, ac rydym yn gweithio'n agos â phartneriaid allweddol o sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, rydym ni'n annibynnol a byddwn yn herio unrhyw rwystrau, rhagdybiaethau, tabŵau a ffyrdd o weithio sy'n ein hatal rhag cynyddu ein dealltwriaeth a gwella ein hagwedd at gam-drin plant yn rhywiol.

Er mwyn mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, mae'n rhaid i ni ddeall beth sy'n ei achosi, ei gwmpas, graddfa ac effaith. Gwyddom lawer am gam-drin plant yn rhywiol ac rydym wedi gwneud cynnydd i ymdrin â hyn, ond mae nifer o fylchau yn ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o hyd sy'n cyfyngu pa mor effeithiol yr eir i'r afael â'r mater.

Canolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol, Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG

E: info@csacentre

@csacentre

**www.csacentre.org.uk**

# Cyflwyniad

Mae adroddiad ymchwil y Ganolfan CPRh, *Ymateb i gam-drin plant yn rhywiol: Dysgu oddi wrth wasanaethau plant yng Nghymru*, a ysgrifennwyd gan Susan Roberts o Brifysgol Abertawe, yn tynnu sylw at faterion arwyddocaol wrth nodi, ymateb, cofnodi a rhoi gwybod am gam-drin plant yn rhywiol (CPRh). Credwn fod y materion hyn yn cael effaith fawr ar ddealltwriaeth gyfredol o raddfa a natur camdriniaeth, a'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu trefnu ac adnoddau'n cael eu blaenoriaethu. Yn bwysicaf oll, maent yn debygol o gael effaith ddwys ar lefel ac ansawdd y gefnogaeth a roddir i lawer o blant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol gan wasanaethau lleol. Yn arwyddocaol, mae ein gweithgareddau ymchwil ac arfer ehangach a thrafodaethau gyda llunwyr polisi a gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cadarnhau bod y materion a nodwyd ymhell o fod yn unigryw i Gymru, a bydd canfyddiadau'r adroddiad yr un mor berthnasol i'r rhai sy'n arwain polisi ac arfer CPRh yn Lloegr.

Mae'r briff hwn yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol hyn ac yn amlinellu argymhellion y Ganolfan CPRh ar gyfer newidiadau i bolisi ac arfer lleol a chenedlaethol mewn ymateb.

Nod yr astudiaeth, a gomisiynwyd gan y Ganolfan CPRh a Llywodraeth Cymru, oedd meithrin gwell dealltwriaeth o raddfa'r CPRh a wynebir gan wasanaethau plant awdurdodau lleol, ac archwilio sut mae CPRh yn cael ei nodi, ei gofnodi a sut yr ymatebir iddo. Roedd yr ymchwil yn cynnwys archwilio sampl o gofnodion gofal cymdeithasol electronig yn ymwneud â phlant mewn dau awdurdod lleol yng Nghymru. Tynnwyd ffeiliau o ystod o ymyriadau gwaith cymdeithasol. Astudiwyd cyfanswm o 44 achos ac roedd 30 ohonynt yn cynnwys cyfeiriadau at CPRh. Yn ogystal, cafwyd dau grŵp ffocws gyda 10 gweithiwr cymdeithasol.

Mae'r ymchwil hefyd yn cyfrannu at rai o'r camau gweithredu a nodwyd yng *Nghynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol* (2019) Llywodraeth Crymu.[1] Drwy gydol y briff hwn, rydym yn tynnu sylw at y camau gweithredu o'r Cynllun Gweithredu sy'n ymwneud â'r canfyddiadau a'r argymhellion.

[1] Mae'r cynllun gweithredu yn nodi'r camau a gymerir gan Lywodraeth Cymru i atal CPRh, i amddiffyn plant rhag CPRh ac i gefnogi plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol. Mae'n cynnwys camau gweithredu ar gyfer partneriaid y Bwrdd Diogelu sydd â rôl arweiniol wrth weithredu.

### Canfyddiad allweddol 1:

# Nid yw graddfa'r pryderon cam-drin plant yn rhywiol sy'n wynebu gwasanaethau plant awdurdodau lleol yn cael eu hadrodd yn ddigonol mewn data swyddogol

Mae data swyddogol ar raddfa cam-drin plant yn rhywiol o fewn llwyth achosion gwasanaethau plant yn dangynrychiolaeth sylweddol o realiti'r pryderon hyn. Mae'r mesuriad mwyaf cyffredin o bryderon CPRh yng ngwasanaethau plant awdurdodau lleol yn ymwneud â nifer y plant sy'n cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant (neu ar gynlluniau amddiffyn plant yn Lloegr) o dan y categori cam-drin rhywiol.

Ar ôl dirywiad hir dros nifer o flynyddoedd, mae'r plant hyn bellach yn 4% o'r holl gofrestriadau amddiffyn plant yng Nghymru; ar ben hynny, mae 1% wedi'u cofrestru o dan 'sawl math o gam-drin' lle mae CPRh yn bryder (Llywodraeth Cymru 2019b). Mae'r ffigur cyfatebol (fel ag yr oedd 31 Mawrth 2019) ar gyfer Lloegr hefyd yn 4%, ond ni allwn gael cyfran yr achosion o 'gam-drin lluosog' lle nodir pryderon CPRh, o ddata sydd ar gael i'r cyhoedd.

Canfu'r astudiaeth fod pryderon yn ymwneud â CPRh wedi'u cofnodi mewn llawer o'r ffeiliau achos, gan gynnwys y rhai lle na nodwyd CPRh fel pryder allweddol. Lleiafrif bach yn unig (un rhan o bump) o'r 30 plentyn lle nodwyd pryderon CPRh yn eu cofnodion, yn y sampl astudiaeth hon, oedd ar y gofrestr amddiffyn plant ar gyfer cam-drin rhywiol, neu sawl math o gam-drin, gan gynnwys cam-drin rhywiol. [2] Cafodd y plant eraill, lle'r oedd CPRh yn bryder, eu gosod ar hyd y system amddiffyn plant (fel plentyn mewn angen neu blentyn sy'n derbyn gofal, neu ar y gofrestr amddiffyn plant am resymau eraill), neu caewyd eu hachos yn dilyn asesiad. Mae hyn yn dangos bod cofrestriadau amddiffyn plant yn ddangosydd gwael o raddfa gyffredinol pryderon CPRh yn y system amddiffyn plant, gan eu bod yn cynrychioli cyfran fach yn unig o achosion yn ymwneud â CPRh, sy'n dod i sylw gwasanaethau plant.

Yn ogystal, roedd gweithwyr cymdeithasol yn ymddangos yn betrusgar i gofnodi pryderon CPRh, lle nad oedd y plentyn wedi datgelu ar lafar (er na fynegwyd unrhyw bryderon o'r fath ynghylch achosion ag amheuaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (CRhB), lle'r oedd dull o gofnodi dangosyddion risg ac arwyddion cam-drin). Mae hyn yn golygu nad yw rhai achosion o CPRh a amheuir yn ymddangos mewn cofnodion achos o gwbl.

Mae graddfa'r CPRh a ddangosir gan ddata swyddogol yn cael effaith sylweddol ar benderfyniadau – yn ymwneud â blaenoriaethu, dyrannu adnoddau, ffocws hyfforddiant, a chomisiynu gwasanaethau arbenigol – a wneir gan asiantaethau lleol sydd â chyfrifoldeb am ddiogelu. Felly mae tangynrychiolaeth CPRh mewn data swyddogol yn cael effaith sylweddol ar y graddau y blaenoriaethir ac yr ymatebir i CPRh ymhellach.

Canfuwyd pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol (YRhN) yn hanner y 30 ffeil achos yn ymwneud â CPRh. Mewn saith o'r achosion hyn, roedd amheuaeth bod y plentyn yr astudiwyd ei ffeil wedi profi YRhN; yn yr wyth ffeil achos lle'r oedd amheuaeth bod y plentyn yn arddangos YRhN, credwyd bod pob un ond un o'r plant hynny wedi dioddef CPRh gan oedolion.

Mewn dwy ran o dair (n=21) o'r 30 ffeil achos yn manylu ar bryderon CPRh, roedd rhyw fath o gam-drin rhywiol rhyng-deuluol yn gysylltiedig. Credwyd bod pob un o'r chwe phlentyn a roddwyd ar y gofrestr amddiffyn plant o dan y categori cam-drin rhywiol wedi profi cam-drin rhyng-deuluol; ar ben hynny, cafwyd amheuaeth o gamdriniaeth ryng-deuluol ym mhob un o'r pum achos a gaewyd yn dilyn (neu, mewn un achos, heb) asesiad.

[2] Dim ond un ffordd o ddiogelu plentyn yw eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant, lle mae risg o niwed sylweddol yn bresennol, ac nid yw'n briodol i bob plentyn sydd mewn perygl o CPRh neu'n profi CPRh. Ni cheisiodd y dadansoddiad ffeiliau achos hwn asesu a oedd yr ymateb diogelu yn gywir ar gyfer pob plentyn; ei bwrpas yn syml oedd arsylwi a oedd plant â phryderon CPRh yn eu cylch yn y system amddiffyn plant.

### *1.1 ARGYMHELLION*

1. Mae'n amserol nawr i adolygu'r ffordd y mae data ar CPRh mewn achosion amddiffyn plant ac achosion plant mewn angen yn cael ei gofnodi, ei gasglu, ei ddefnyddio a'i rannu. Dylai'r adolygiad hwn gael ei gynnal ar sawl lefel gan gynnwys llywodraeth genedlaethol, byrddau diogelu plant lleol ac awdurdodau lleol unigol. Dylai'r adolygiad hwn gynnwys datganiad clir am gyfyngiadau'r data cyfredol.
2. Mae angen eglurder mewn canllawiau ynghylch cofnodi pryderon CPRh pan na wneir datgeliad llafar. Dylai Llywodraeth Cymru a'r Adran Addysg adolygu canllawiau i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn cofnodi'r pryderon hyn.
3. Mae'r astudiaeth hon wedi rhoi cipolwg ar natur pryderon diogelu a'r arfer o gofnodi ac ymateb i'r pryderon hynny. Rydym yn argymell y dylai byrddau diogelu lleol (trefniadau diogelu amlasiantaethol yn Lloegr) a thimau gwasanaethau plant awdurdodau lleol, ystyried archwilio ffeiliau achos yn rheolaidd i adolygu dull adnabod ac ymateb, yn ogystal â chofnodi pryderon am CPRh.

Mae hyn yn ymwneud â'r amcan a'r camau gweithredu canlynol yng *Nghynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol* Llywodraeth Cymru:

**Amcan 8: Casglu tystiolaeth o ba mor aml y mae achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn digwydd er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau i blant sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol.**

- A25. Llywodraeth Cymru – Rhannol ariannu ymchwil Canolfan Arbenigol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol.
- A26. Partneriaid ar Fyrddau Diogelu – Ystyried goblygiadau canfyddiadau gwaith ymchwil wrth adolygu amlder tebygol achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn y rhanbarth.

## Canfyddiad allweddol 2:

# Er bod llawer o wybodaeth yn cael ei chofnodi am natur a chyd-destun CPRh, mae manylion pwysig ar goll yn aml, ac mae'n anodd cael gafael ar ddata a'i ddadansoddi

Mae gwneud penderfyniadau effeithiol ynghylch sut i nodi, atal, ymateb i gam-drin plant yn rhywiol, a tharfu arno, yn dibynnu ar ddata i'w lywio. Mae'r astudiaeth hon wedi dangos bod y data a gasglwyd am achosion CPRh yn anodd ei gael, ei ddadansoddi a'i gymharu.

Yn gyffredinol, canfuwyd gwybodaeth am broffil y dioddefwr (oedran, rhyw, ethnigrwydd) a rhai agweddau ar broffil y tramgwyddwr dan amheuaeth (rhyw, perthynas â'r dioddefwr) mewn ffeiliau plant. Cofnodwyd gwybodaeth am hyd y cam-drin ac am oedran ac ethnigrwydd y tramgwyddwr dan amheuaeth yn llai aml.

Er bod gwybodaeth am CPRh yn amlwg mewn llawer o ffeiliau achos, ni chafodd ei threfnu yn y ffordd fwyaf effeithiol i alluogi y deallir achos unigol. Rhannwyd gwybodaeth am CPRh ar draws nifer o ddogfennau i lefelau amrywiol o fanylion, ac fe'i cofnodwyd yn bennaf mewn testun naratif. Codwyd effeithiolrwydd systemau data – ac arfer cofnodi – a'r broblem o wybodaeth yn cael ei 'cholli' gan weithwyr cymdeithasol, ar draws y ddau awdurdod lleol yn y grwpiau ffocws.

At hynny, er bod y data hwn yn amlwg yn y ffeiliau naratif, nid oedd ar gael mewn fformat i alluogi bod modd dadansoddi ac adrodd arno. Yn flaenorol, mae’r Ganolfan CPRh wedi tynnu sylw at yr angen i wella cysondeb ac ansawdd cofnodi data er mwyn gallu gwneud cymariaethau rhwng ardaloedd dros amser.

Mae nifer o fuddion i wella’r broses o gofnodi data lleol mewn perthynas â CPRh:

- Trwy fonitro graddfa a natur y CPRh a wynebir gan eich gwasanaeth (e.e. patrymau CPRh rhyng-deuluol, CRhB a cham-drin mewn lleoliad gang), gallwch nodi'r angen am wasanaethau, hyfforddiant staff ac ati yn yr ardal leol a siapio gwasanaethau i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn well.
- Efallai y bydd cofnodi systematig o broffiliau defnyddwyr gwasanaeth (e.e. eu hethnigrwydd neu ryw) yn eich galluogi i ofyn cwestiynau am eich cyrhaeddiad yn y boblogaeth leol, i nodi bylchau ac edrych ar ffyrdd o gyrraedd grwpiau sydd heb eu nodi’n ddigonol.
- Gall deall proffiliau pobl sy'n cam-drin (e.e. eu hoedran a'u perthynas â'r dioddefwr) a'r cyd-destun y mae cam-drin yn digwydd ynddo (e.e. lleoliadau, sefyllfaoedd) eich helpu i ddatblygu gwaith atal, adnabod a tharfu arnynt yn gynharach.
- Gall deall patrymau datgelu a ffynonellau atgyfeirio eich helpu i nodi sut mae pryderon CPRh yn dod i'r amlwg, a chanfod yr angen am hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ymhlith sefydliadau ac ymarferwyr nad ydynt yn cyfeirio achosion atoch chi.
- Mae cadw cofnodion da yn lleihau amser (a chostau) staff yn llenwi bylchau gwybodaeth a chysoni data yn ôl-weithredol.

## *2.1 ARGYMHELLIAD*

4. Er mwyn deall graddfa a natur pryderon CPRh, mae angen i wasanaethau wella cysondeb ac ansawdd eu data. Er mwyn cefnogi gwasanaethau i wella eu gwaith o gasglu data (ac felly eu gallu i dynnu gwybodaeth ystyrlon a gwella arfer), mae'r Ganolfan CPRh wedi datblygu templed casglu data sy'n nodi rhestr o 30 maes data craidd gyda diffiniadau wedi’u hargymell, i'w defnyddio. gan wasanaethau diogelu plant. Os yw’r meysydd data craidd hyn yn cael eu cofnodi’n rheolaidd ac yn gyson gan asiantaethau, bydd yn gwella dealltwriaeth leol unigol a chyfunol asiantaethau o CPRh yn sylweddol. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol a phartneriaid diogelu yn adolygu'r data y maent yn ei gasglu ar hyn o bryd, ac yn mabwysiadu'r templed casglu data gan ddefnyddio’r canllaw ymarferol i wella data a’r offeryn gwella data rhyngweithiol gan y Ganolfan CPRh.

Mae hyn yn ymwneud â’r amcan a’r camau gweithredu canlynol yng *Nghynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol* Llywodraeth Cymru:

**Amcan 8: Casglu tystiolaeth o ba mor aml y mae achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn digwydd er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau i blant sydd wedi’u cam-drin yn rhywiol.**

- A25. Llywodraeth Cymru – Rhannol ariannu ymchwil Canolfan Arbenigol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol.
- A26. Partneriaid ar Fyrddau Diogelu – Ystyried goblygiadau canfyddiadau gwaith ymchwil wrth adolygu amlder tebygol achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn y rhanbarth.

## Canfyddiad allweddol 3:

# Dangosodd gweithwyr cymdeithasol fylchau yn eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u hyder mewn perthynas â nodi, cofnodi ac ymateb i bryderon CPRh

Dangosodd tystiolaeth o'r ffeiliau achos a'r grwpiau ffocws fylchau mewn gwybodaeth, sgiliau a hyder gweithwyr cymdeithasol mewn perthynas â phryderon am CPRh, a oedd yn destun pryder. Roedd yn amlwg hefyd bod gweithwyr cymdeithasol yn dibynnu ar ddatgeliad llafar gan y plentyn er mwyn deddfu ymateb diogelu i bryderon o'r fath, oni bai bod pryderon o'r fath yn ymwneud â CRhB (gweler Canfyddiad allweddol 1).

Nodwyd bylchau mewn gwybodaeth, sgiliau a hyder mewn meysydd gan gynnwys:

- deall natur CPRh, deall y rhwystrau i ddatgelu, a chydnabod arwyddion a dangosyddion CPRh
- sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei darparu i blant pan fydd ymchwiliad troseddol parhaus i bryderon neu beidio
- camddealltwriaeth ynghylch natur a phwrpas archwiliadau meddygol.

Mae tystiolaeth o ymchwil blaenorol[3] yn dangos bod cyfraddau datgelu geiriol yn isel ar yr adeg y mae cam-drin yn digwydd yn ystod plentyndod. Fodd bynnag, dywed plant eu bod yn ceisio datgelu eu camdriniaeth pan fyddant yn gweithredu mewn ffyrdd y maent yn gobeithio y bydd oedolion yn sylwi arnynt ac yn ymateb iddynt. Mae hyn yn arbennig o bwysig i blant anabl.

Yn wir, bu staff ar draws y ddau awdurdod lleol yn yr astudiaeth hon yn myfyrio ar ba mor anaml y gwnaeth plant ddatgelu CPRh iddynt, a chydnabod effaith hyn ar nifer yr achosion CPRh y gwelsant yn eu llwyth achosion. Roeddent o'r farn bod cyfyngiadau amser yn lleihau eu gallu i adeiladu perthnasoedd â phlant, a oedd felly'n effeithio ar nifer y datgeliadau.

Teimlwyd bod gwasanaethau'n gallu ymateb yn fwy effeithiol i CRhB na mathau eraill o CPRh. Er nad oedd CRhB yn debygol o gael ei ddatgelu, mynegodd cyfranogwyr y farn ei bod yn haws iddynt fynegi pryderon am CRhB na mathau eraill o CPRh, gan fod y pwyslais mewn achosion o CRhB ar gydnabod arwyddion a dangosyddion, yn hytrach na bod y plentyn yn cyfathrebu ei fod wedi cael ei gam-drin.

Nododd gweithwyr proffesiynol bwysigrwydd goruchwyliaeth a mynediad at weithwyr cymdeithasol ymgynghorol fel dull cymorth pan fydd plentyn wedi datgelu, neu os oes amheuaeth bod CPRh yn digwydd; fodd bynnag, nid oedd cefnogaeth o'r fath ar gael bob amser.

### *3.1 ARGYMHELLION*

Mae'r bylchau yng ngwybodaeth, sgiliau a hyder gweithwyr cymdeithasol mewn perthynas â nodi ac ymateb i bob math o CPRh yn tynnu sylw at yr angen i adolygu hyfforddiant cyn ac ar ôl cymhwyster, a pharhau i ddatblygu a chefnogi gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol plant.

Mewn ymateb rydym yn argymell y camau gweithredu canlynol:

5. Er mwyn gwella'r ddarpariaeth o gynnwys sy'n ymwneud â phob math o CPRh o fewn cyrsiau gradd gwaith cymdeithasol, dylai'r rheoleiddwyr yng Ngwaith Cymdeithasol Lloegr a Gofal Cymdeithasol Cymru osod disgwyliadau cliriach o gynnwys o'r fath.
6. Dylai byrddau diogelu lleol yng Nghymru a threfniadau diogelu amlasiantaethol yn Lloegr weithio gydag awdurdodau lleol i adolygu a darparu arweinyddiaeth a disgwyliadau o ran hyfforddiant ôl-gymhwyso a disgwyliadau datblygu a darpariaeth ar CPRh; dylai hyn ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu dealltwriaeth ynghylch natur datgelu, cydnabod arwyddion a dangosyddion cam-drin yn absenoldeb datgeliad, ac adeiladu'r darlun o bryderon o'r fath er mwyn gwneud ymatebion priodol (er enghraifft, trwy gyfeirio'r plentyn at archwiliad meddygol).

[3] Allnock, D., Miller, P. a Baker, H. (2019) *Negeseuon allweddol o waith ymchwil ar nodi datgeliadau o gam-drin plant yn rhywiol ac ymateb iddynt*. Barkingside: Canolfan CPRh.

7. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol rheng flaen mewn timau amddiffyn plant yn cael mynediad at oruchwyliaeth ac arweinyddiaeth arfer o ansawdd uchel ar CPRh. I gydnabod yr angen i ddatblygu arweinyddiaeth arfer ar CPRh o fewn gwaith cymdeithasol, mae'r Ganolfan CPRh wedi datblygu a phrofi rhaglen ddwys o hyfforddi a datblygu – Rhaglen Arweinwyr Ymarfer CPRh – sy'n ceisio adeiladu dealltwriaeth a hyder ymarferwyr wrth nodi ac ymateb i CPRh, a'u cefnogi i raeadru eu dysgu o fewn eu gwasanaethau. Mae Rhaglen Arweinwyr Ymarfer CPRh yn cychwyn mewn dwy ardal yng Nghymru yr hydref hwn.

Mae hyn yn ymwneud â'r amcan a'r camau gweithredu canlynol yng *Nghynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol* Llywodraeth Cymru:

**Amcan 3: Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a'r cyhoedd o sut i helpu i gadw plant yn ddiogel rhag cael eu cam-drin yn rhywiol.**

- A11. Llywodraeth Cymru – Datblygu adnoddau gwybodaeth ar gyfer ymarferwyr a rhieni/gofalwyr ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac ymddygiad rhywiol niweidiol.
- A13. Partneriaid ar Fyrddau Diogelu – Cefnogi ymarferwyr i ddysgu am gam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin ar-lein, gan gynnwys ymwybyddiaeth o ganllawiau, gweithdrefnau ac arweinlyfrau ymarfer perthnasol. Dylai hyn gynnwys hybu dealltwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol yng nghyd-destun materion cydraddoldeb ac amrywiaeth, fel rhywedd, ethnigrwydd, rhywioldeb ac anabledd.

**Amcan 7: Bod gan ymarferwyr fynediad at adnoddau a hyfforddiant i'w paratoi nhw ar gyfer ymateb yn effeithiol, yn amserol ac yn briodol i blant sy'n wynebu risg neu sydd wedi eu cam-drin trwy gam-drin plant yn rhywiol.**

- A23. Llywodraeth Cymru – Datblygu adnoddau hyfforddi i ymarferwyr ar ymdrin â datgeliadau o gam-drin plant yn rhywiol, y broses ymchwilio, a chefnogi teuluoedd a effeithiwyd gan gam-drin plant yn rhywiol.
- A24. Partneriaid ar Fyrddau Diogelu – Cefnogi dysgu ymarferwyr ar ymdrin â datgeliadau o gam-drin, y broses ymchwilio, a chefnogi teuluoedd a effeithiwyd gan gam-drin plant yn rhywiol.

### Canfyddiad allweddol 4:

## Mae natur y gefnogaeth i blant a theuluoedd mewn ymateb i bryderon CPRh yn amrywio'n fawr

Mynegodd cyfranogwyr mewn grwpiau ffocws ar draws y ddau awdurdod lleol bryder ynghylch y diffyg gwasanaethau cefnogi i blant a oedd wedi profi mathau o CPRh, heblaw am CRhB. Canfuwyd hefyd bod cefnogaeth i deuluoedd yn gyfyngedig. Amlygwyd meini prawf atgyfeirio anodd a rhestrau aros hir ar gyfer darparu gwasanaethau arbenigol yn y grwpiau ffocws.

Yn y 23 achos lle cynigiwyd cefnogaeth yn ymwneud yn benodol â CPRh, roedd natur y gefnogaeth hon yn amrywio'n fawr. Derbyniodd dwy ran o dair (n=15) o blant rywfaint o gefnogaeth gan sefydliadau allanol – yn amrywio o sesiynau sengl i ymyriadau therapiwtig tymor hir – tra bod y saith arall yn nodweddiadol yn mynychu sesiynau byr 'cadw'n ddiogel' neu 'gyffyrddiad diogel' gyda gweithwyr cymdeithasol.

O'r astudiaeth, mae'n ymddangos bod plant yn fwy tebygol o gael cefnogaeth lle mae pryderon yn ymwneud â CRhB. Ymhlith plant y credir eu bod wedi profi camdriniaeth ryng-deuluol ond heb arddangos YRhN eu hunain, ni chafodd dwy ran o bump (n=8) unrhyw gefnogaeth benodol i CPRh. Mewn cyferbyniad, dim ond un allan o saith plentyn na dderbyniodd gefnogaeth o'r fath pan gafwyd amheuaeth o gamdriniaeth y tu allan i'r teulu (a oedd yn cynnwys CRhB ym mron pob achos).

Roedd yn ymddangos bod cefnogaeth mewn perthynas â cham-drin rhyng-deuluol ar gael yn haws i blant a oedd ar gofrestr amddiffyn plant ar gyfer cam-drin rhywiol: cafodd pump o'r chwe phlentyn o'r fath ymyrraeth. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, nid oedd mwyafrif yr achosion lle'r oedd pryderon ynghylch cam-drin rhyng-deuluol ar y gofrestr amddiffyn plant.

Roedd gwasanaethau arbenigol yn cymryd rhan yn amlach mewn ymateb i bryderon YRhN a CRhB: roedd dros ddwy ran o dair (n=7) o achosion ag amheuaeth o CRhB yn cael eu cefnogi gan sefydliadau allanol, fel yr oedd saith o'r wyth plentyn y credwyd eu bod wedi arddangos YRhN.

Lleiafrif bach yn unig o ffeiliau achos (n=5) oedd yn cynnwys gwybodaeth am gefnogaeth a roddwyd i'r teulu (rhiant nad oedd yn cam-drin).

### *4.1 ARGYMHELLION*

8. Yn unol ag Argymhelliad 2, mae'r astudiaeth hon yn dangos gwerth cynnal adolygiad o ffeiliau achos i asesu camau nodi ac ymateb yn ogystal â chofnodi pryderon CPRh. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun asesu'r ymateb y mae plant a theuluoedd yn ei gael pan fydd pryderon o'r fath yn bodoli. Dylai byrddau diogelu lleol (trefniadau diogelu amlasiantaethol yn Lloegr) a thimau gwasanaethau plant awdurdodau lleol ystyried archwiliad ffeiliau achos rheolaidd i adolygu camau nodi ac ymateb yn ogystal â chofnodi pryderon y CPRh.
9. Dylai byrddau diogelu lleol a threfniadau diogelu amlasiantaethol adolygu cwmpas y cynnig cefnogi mewn achosion sy'n ymwneud â phryderon CPRh, ac yn benodol ystyried yr ymateb yng nghyd-destun pryderon cam-drin rhyng-deuluol a chefnogaeth i aelodau o'r teulu nad ydynt yn cam-drin.
10. Dylai hyfforddiant a datblygiad gweithwyr cymdeithasol gynnwys gweithio'n effeithiol gyda phlant sy'n profi CPRh ac aelodau o'u teulu nad ydynt yn cam-drin, er mwyn sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn gallu rhoi cefnogaeth pan nad oes cefnogaeth arbenigol ar gael.

Mae hyn yn ymwneud â'r amcan a'r camau gweithredu canlynol yng *Nghynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol* Llywodraeth Cymru:

**Amcan 9: Bod plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol a/neu wedi cael eu cam-drin yn rhywiol trwy gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin rhywiol ar-lein yn cael mynediad at wasanaethau a lywir gan drawma a chymorth therapiwtig priodol sy'n seiliedig ar eu hanghenion gofal a chymorth unigol er mwyn gwella eu llesiant ac atal cam-drin rhag digwydd eto.**

- A27. Llywodraeth Cymru – Cefnogi datblygiad manyleb gwasanaeth genedlaethol ar gyfer gwasanaethau Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yng Nghymru gyda Chydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru, gan ystyried amrywiaeth o fodelau ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn.
- A28. Llywodraeth Cymru – Ymgynghori ar lwybr clinigol i blant sydd wedi datgelu cam-drin plant yn rhywiol / plant y mae Cydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru wedi'u nodi fel rhai sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol a chefnogi datblygiad y llwybr hwn.
- A29. Llywodraeth Cymru – Cefnogi datblygiad ar sail tystiolaeth y cynnig ar gyfer cymorth therapiwtig i blant sydd wedi'u heffeithio gan drawma sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol.
- A31. Partneriaid ar Fyrddau Diogelu – Cynnal adolygiad o'r cymorth therapiwtig sydd ar gael i blant sydd wedi dioddef cam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, ymddygiad rhywiol niweidiol neu gamdrin rhywiol ar-lein yn y rhanbarth, fel y gellir nodi a mynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth.

Os hoffech fwy o wybodaeth am yr ymchwil hwn neu unrhyw agwedd arall ar waith y Ganolfan CPRh, cysylltwch â ni ar: info@csacentre.org.uk